


Pecyn Adnoddau Addysg – Gwers 2

Ysgrifennu gyda Dylan Thomas

Cyfnod Allweddol 2

Hanes a Llythrennedd

Edrych ar y ffordd mae
Dylan yn defnyddio un
enw er mwyn disgrifio
enw arall!



Nodiadau rhagarweiniol

Roedd Dylan Thomas yn defnyddio geiriau gyda phwrpas yn ei holl farddoniaeth a'i ryddiaith.

Mae'r wers hon yn edrych ar sut i ddefnyddio un enw er mwyn disgrifio enw arall, er mwyn bod yn fwy effeithiol.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm – Saesneg

Llafaredd – Ystod (8) – Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar eiriau, eu tarddiad, eu hystyr, eu effaith a'r dewis ohonynt.

Darllen – Ystod (3) – Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen/gwyllo drwy gael profiad o ystod eang o destunau, yn eu plith cerddi, rhyddiaith a drama, rhai traddodiadol a modern, ynghyd â chael cyfle i ymateb iddynt.

Ysgrifennu – Ystod (4) – Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu drwy ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth eang o symbyliadau gweledol, clywedol ac ysgrifenedig.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm – Cymraeg

Llafaredd – Sgiliau (1) Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion wyllo a gwrando'n astud gan nodi'r prif bwyntiau.

Llafaredd – Ystod (4) Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelodau o ddosbarth.

Ysgrifennu – Sgiliau (1) Dylid rhoi'r cyfle i'r disgyblion ddefnyddio nodweddion y ffurfiau llenyddol a ddewisir, gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwrpas.

Ysgrifennu – Sgiliau (7) Dylid rhoi'r cyfle i'r disgyblion ddefnyddio geirfa a therminoleg briodol wrth ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

Ysgrifennu – Ystod (1) Dylid rhoi'r cyfle i'r disgyblion ysgrifennu at amrywiaeth o bwrpasau.

Ysgrifennu – Ystod (4) Dylid rhoi'r cyfle i'r disgyblion ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. stori, cerdd.

Y Fframwaith Llythrennedd

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – trefnu syniadau a gwybodaeth – ystyr, dibenion a darllenwyr – defnyddio technegau wrth gynllunio ar gyfer ysgrifennu (Bl.5) adfyfrio, golygu ac ailddrafftio er mwyn gwella'u hysgrifennu (Bl.6).

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – ysgrifennu'n gywir – iaith – defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion sy'n bwnc-benodol (Bl.5), defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion sy'n bwnc-benodol.

Llafaredd ar draws y cwricwlwm – datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau – gwrando – gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys ac i farn y siaradwr (Bl.5).

Llafaredd ar draws y cwricwlwm – datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau – cydweithio a thrafod – cyfrannu'n bwrpasol at drafodaeth grŵp er mwyn cyrraedd canlyniadau cytûn; dilyn trywydd pwyntiau mewn trafodaethau grŵp, dangos cytundeb neu anghytundeb, gan roi rhesymau (Bl.6).

Trawsgwricwlaidd / y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r wers hon yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig drwy ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru. Mae'r disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o'r dreftadaeth lenyddol ac ieithyddol drwy astudio testunau llenyddol, anlenyddol, y cyfryngau a thestunau eraill.

Cysylltiadau â'r Fframwaith Sgiliau – Datblygu cyfathrebu ar draws y cwricwlwm

Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd.

Trafod testunau a dangos gwerthfawrogiad ohonynt, gan werthuso technegau'r awdur.

Dylan Thomas

Symbyliadau

Dyfyniad o ran agoriadol 'Under Milk Wood', gan sylwi'n arbennig ar y defnydd o enw er mwyn disgrifio enw arall a'r chwarae ar eiriau. Sylwer: bydd angen i'r athro dosbarth drefnu hyn. Argymhellir yn gryf fod y recordiad o Richard Burton yn darllen y dyfyniad hwn yn cael ei ddefnyddio.

Adnoddau

Cyflwyniad PowerPoint 1, Ysgrifennu Gyda Dylan, Taflenni Gwaith Lliw 1 a 2, Cyflwyniad PowerPoint 2, Ysgrifennu Gyda Dylan, Pecyn Ffotograffau Ysgrifennu Gyda Dylan, Taflen Waith Ysgrifennu Gyda Dylan, Taflen Ysgrifennu Gyda Dylan: Geiriau Defnyddiol.

Amcan(ion) Dysgu

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r defnydd o enw ar gyfer disgrifio enw arall
- Atgyfnerthu'r ddealltwriaeth a'r defnydd o gymariaethau a throsiadau fel y bo'n briodol.

Meini Prawf Llwyddiant – erbyn diwedd y wers, bydd y disgyblion yn gallu

- Defnyddio enw er mwyn disgrifio enw arall ac ysgrifennu disgrifiadau byr sydd wedi cael eu hysbrydoli gan farddoniaeth a rhyddiaith Dylan Thomas.

Gweithgaredd Dechreuol – y dosbarth cyfan – 10 munud

- Darllenwch ddyfyniad – rhan agoriadol 'Under Milk Wood' – gan bwysleisio'r disgrifio, yn enwedig 'crow black' – neu chwaraewch ddyfyniad sy'n cael ei ddarllen gan Dylan Thomas
- Sylwer: bydd angen i'r athro dosbarth drefnu hyn.
- Cyflwyniad PowerPoint – Ysgrifennu Gyda Dylan 1 – Eglurwch a thrafodwch y ffordd mae Dylan yn defnyddio un enw er mwyn disgrifio enw arall.
- Gweithgaredd Pâr – Meddylwch am enw er mwyn disgrifio lliw – gan ddefnyddio Taflenni Gwaith Lliw 1 a 2.
- Sylwer: Argymhellir torri'r Taflenni Gwaith Lliw yn lliwiau unigol ymlaen llaw a'u lamineiddio fel bod modd eu hailddefnyddio. Dylid rhoi 2 liw i bob pâr.

Archwilio – Gwaith Pâr / Gwaith Grŵp – 30 munud

- Gweithgaredd ysgrifennu disgrifiadol gan ddefnyddio Taflen Waith **Ysgrifennu Gyda Dylan** ynghyd â lluniau o Gastell Talacharn yn y Pecyn Ffotograffau. *Gwaith Pâr neu Waith Grŵp yn unol â dymuniad yr athro.* Ysgrifennwch disgrifiadau byr gan ddefnyddio enw er mwyn disgrifio enw arall. Gall y disgyblion ychwanegu at eu disgrifiadau drwy ddefnyddio cymariaethau a throsiadau – yn unol â dymuniad yr athro.
Sylwer: mae taflenni gwaith Ysgrifennu Gyda Dylan: Geiriau Defnyddiol ar gael ar gyfer cefnogi'r gweithgaredd dysgu hwn.
- Argymhellir adolygu ganol y wers – er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn defnyddio enw er mwyn disgrifio enw arall yn llwyddiannus – byddai cynnal trafodaeth fer gyda'r dosbarth cyfan yn sicrhau bod y disgyblion yn deall yr hyn mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud.

Sesiwn lawn – y dosbarth cyfan – 10 munud

Adolygwch ysgrifennu, drwy ddefnyddio'r cyflwyniad PowerPoint '**Ysgrifennu gyda Dylan 2**'.

Mae hwn yn gyfle i ddisgyblion rannu'r hyn maen nhw wedi'i ysgrifennu.

Sylwer: Mae'r ffotograffau sydd yn y cyflwyniad PowerPoint yn cyfateb i'r rhai sydd yn y Pecyn Ffotograffau.

Estyniad – Paratoi Arddangosfa ar Dylan Thomas

Chwiliwch am ffotograffau neu luniau sy'n dangos sut y gellir defnyddio un enw er mwyn disgrifio enw arall – naill ai ar y rhyngrwyd neu gall y disgyblion dynnu eu ffotograffau eu hunain.

Nodiadau ychwanegol

Dylan Thomas